



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022

Hydref 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

# Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	1
2. Y Cyd-destun .....	1
3. Strwythur Cynllun Cyflawni 2019-2022 .....	1
4. Ymgysylltu cyn ymgynghori .....	2
5. Ymgynghoriad.....	5
6. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad .....	6
7. Y Prif Negeseuon.....	7

## 1. Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022, sy'n dilyn y cynllun cyflawni tair blynedd blaenorol a strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ynghylch camddefnyddio sylweddau, 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', 2008-2018. Roedd wedi'i anelu at Fyrddau Cynllunio Ardal, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a rhanddeiliaid allweddol eraill y gall fod ganddynt ddiddordeb yn y maes hwn.

## 2. Y Cyd-destun

Roedd strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ynghylch camddefnyddio sylweddau, 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', yn cwmpasu'r cyfnod 2008-2018. Ers 2008, mae'r strategaeth gyffredinol wedi'i hategu gan gyfres o gynlluniau cyflawni sy'n amlinellu'r camau gweithredu manwl y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi'u cymryd i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y strategaeth.

Mae'r 'Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022' yn adeiladu ar y cynnydd da a wnaed yn ystod oes y strategaeth flaenorol o 2008 i 2018, 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed'. Nod cyffredinol y cynllun cyflawni yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn ymwybodol o'r peryglon a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, ac yn gwybod ble y gallant gael gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth os oes angen.

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys nifer o gamau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol. Cafodd y rhain eu datblygu yn dilyn proses cyn ymgynghori, ynghyd â chanfyddiadau'r gwerthusiad o strategaeth 2008-18 (a gyhoeddwyd fis Ebrill 2018) a chanfyddiadau Adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau (a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2018).

## 3. Strwythur Cynllun Cyflawni 2019-2022

Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae'n faes pwysig y mae'n rhaid i ni ganolbwyntio arno os ydym am wireddu ein huchelgeisiau yn 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Mae camddefnyddio sylweddau yn broblem iechyd fawr sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau, ac mae'r cynllun hwn yn nodi'r meysydd â blaenoriaeth y byddwn ni'n canolbwyntio arnynt gyda'n partneriaid er mwyn cyflawni ein huchelgais o leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Ochr yn ochr â'r camau gweithredu a amlygwyd yn y cynllun, rydym hefyd wedi amlinellu meysydd blaenoriaeth pwysig lle credwn fod angen gwneud mwy o waith er mwyn parhau i wneud cynnydd ar gyfer y bobl hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Bydd y meysydd hyn yn cynnwys gweithio ar draws y Llywodraeth a chyda phartneriaid allweddol, yn arbennig Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.

Bydd bwrdd rhaglen mewnol a bwrdd partneriaeth cenedlaethol allanol yn monitro cynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn y camau gweithredu o fewn y cynllun cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn dal Byrddau Cynllunio Ardal a sefydliadau eraill i gyfrif mewn perthynas â'u hymrwymiaidau o fewn y cynllun cyflawni.

Roedd y broses ymgysylltu / ymgynghori yn cynnwys tri cham:

1. Paratoi – adolygu'r cynnydd a'r dystiolaeth, trafodaethau ar draws y sector. Darparodd hyn y prif flaenoriaethau drafft ar gyfer y cynllun.
2. Cyn ymgynghori – trafodaethau manwl â phartneriaid, defnyddwyr gwasanaethau ac eraill am y blaenoriaethau a'r dulliau gweithredu sydd i'w mabwysiadu. Roedd y broses ymgysylltu yn cynnwys rhwydweithiau a chyfarfodydd presennol, er y defnyddiwyd rhai digwyddiadau pwrpasol a dulliau ymgysylltu ar-lein. Yn sgil y cam hwn, cafwyd cynllun drafft llawn.
3. Ymgynghoriad ffurfiol – arweiniodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol ar gynllun drafft a oedd yn manylu ar y blaenoriaethau, camau gweithredu, monitro ac adnoddau. Roedd y broses ymgysylltu yn cynnwys defnydd parhaus o ddigwyddiadau a rhwydweithiau perthnasol.

#### 4. Ymgysylltu cyn ymgynghori

Mae'r Cynllun Cyflawni wedi'i lywio gan gyfraniad sylweddol gan amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol, yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau.

Cyn yr ymgynghoriad ffurfiol, cynhaliodd y swyddogion ddigwyddiadau ymgysylltu (a oedd yn cynnwys darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau) yng Nghaerdydd, Casnewydd, Llanelli a Llandudno. Cynhaliwyd digwyddiad ychwanegol ym Mhowys ar gyfer y Bwrdd Cynllunio Ardal a defnyddwyr gwasanaethau, ynghyd â digwyddiad penodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn ardal Cwm Taf. Hefyd, cafwyd digwyddiad penodol i bobl ifanc a gynhaliwyd yng ngorllewin Cymru. Roedd yr holl ddigwyddiadau yn gynhyrchiol iawn ac yn llawn gwybodaeth a daeth llawer o bobl iddynt (dros 400 o bobl i gyd, ac roedd rhyw 150 o'r rhain yn ddefnyddwyr gwasanaethau). Yn ystod y digwyddiadau, casglodd y swyddogion amrywiaeth o safbwyntiau a sylwadau, a chawsant eu hadlewyrchu cyhyd â phosibl yn y cynllun drafft yr ymgynghorwyd yn ei gylch wedyn. Yn benodol, roedd y digwyddiadau ymgysylltu yn rhoi cadarnhad a sicrwydd fod y meysydd a nodwyd yn flaenoriaethau posibl (fel yr amlygwyd yn y gwerthusiad o'r strategaeth flaenorol ac Adolygiad AGIC), ar y cyfan, yn gywir.

Cynhaliwyd digwyddiadau cyn ymgynghori yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2019. Cafodd y digwyddiadau hyn eu cynnal yn y lleoliadau canlynol:

- Caerdydd - 14 Chwefror
- Casnewydd - 15 Chwefror
- Gogledd Cymru - 21 Chwefror
- Llanelli - 22 Chwefror
- Digwyddiad i bobl ifanc yn Fferm Folly - 6 Mawrth

Rhannwyd y digwyddiadau cyn ymgynghori yn sesiynau bore a phrynhawn a oedd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau, yn y drefn honno.

### ***Sesiwn i ddarparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau***

Rhannwyd sesiwn y bore yn ddau weithdy. Roedd hyn yn galluogi'r swyddogion i gael barn ynghylch dau faes gwahanol, gan gynnwys eu sylwadau am y cynnydd hyd yma a'u canfyddiad ynghylch y dyfodol. Roedd y cwestiynau'n cynnwys y canlynol:

#### Gweithdy 1

- A yw'r egwyddorion craidd sy'n sail i'r strategaeth yn dal i fod yn ddilys?
- Yn eu barn nhw, beth oedd y prif lwyddiannau dros y 10 mlynedd diwethaf?
- Yn eu barn nhw, beth oedd y prif rwystrau i gynnydd?

#### Gweithdy 2

- Sut gallwn ehangu mynediad at wasanaethau?
- Beth ddylai ein prif flaenoriaethau fod ar gyfer y dyfodol?
- Pa waith pellach y mae angen ei wneud?

### ***Sesiwn i Ddefnyddwyr Gwasanaethau***

Roedd sesiwn y prynhawn yn cynnwys dod â defnyddwyr gwasanaethau at ei gilydd i gael gwybod am eu profiadau a chael barn werthfawr er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a drafodwyd. Roedd y cwestiynau'n cynnwys y canlynol:

- Beth oedd elfen bwysicaf y cymorth a gawsoch gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau?
- Beth fyddai modd ei wella?
- Beth oedd y prif rwystr/rhwystredigaeth i'ch cynnydd?

- A ydych chi'n teimlo y cawsoch gymorth i fynd i'r afael â phroblemau eraill yn eich bywyd, e.e. tai/teulu?

Roedd y digwyddiadau yn galluogi'r swyddogion i gasglu a gwerthuso'r holl ddata. Arweiniodd hyn at ddatblygu Cynllun Cyflawni drafft yn seiliedig ar feysydd lle cafwyd consensws cyffredinol a themâu/blaenoriaethau a gododd dro ar ôl tro yn y digwyddiadau.

Cafwyd cytundeb cyffredinol yn y digwyddiadau cyn ymgynghori fod y themâu canlynol yn dal i fod yn ddilys:

- atal niwed;
- cefnogi unigolion – er mwyn gwella eu hiechyd a helpu a chynnal adferiad;
- cefnogi a diogelu teuluoedd;
- mynd i'r afael ag argaeledd a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgarwch gorfodi; a
- partneriaethau cryfach, datblygu'r gweithlu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau.

### ***Meysydd Blaenoriaeth***

Roedd y digwyddiadau cyn ymgynghori, ynghyd â chanfyddiadau'r gwerthusiad o strategaeth 2008-18 a chanfyddiadau Adolygiad AGIC, wedi helpu i lywio'r camau gweithredu canlynol â blaenoriaeth a amlinellwyd yn y Cynllun Cyflawni i ymgynghori yn ei gylch:

- Ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, sy'n gyffredin wrth gamddefnyddio sylweddau
- Sicrhau gwaith partneriaeth cryfach gyda gwasanaethau tai a digartrefedd er mwyn datblygu ymhellach y dull amlddisgyblaeth sydd ei angen i gefnogi'r rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref
- Sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru (a CEM Eastwood Park, y carchar i fenywod) wasanaeth cydlynol, tryloyw a chyson ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau mewn carchardai
- Cynnig mwy o gymorth i deuluoedd a gofalwyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Gwella'r mynediad i wasanaethau a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r driniaeth pan fydd eu hangen arnynt
- Cryfhau ein gwaith amlasiantaeth a'n cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu
- Mynd i'r afael â dibyniaeth ar feddyginiaethau presgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter
- Sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio alcohol priodol ac ymatebol ar waith cyn y daw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 i rym. Ar hyn o bryd, y nod ar gyfer hyn yw dechrau 2020.

## **Dull Gweithredu Trawslywodraethol**

Yn ogystal â'r meysydd blaenoriaeth uchod, a chymau gweithredu penodol ynghylch camddefnyddio sylweddau a amlinellir yn y Cynllun Cyflawni, mae ffocws hefyd ar ymwreiddio camddefnyddio sylweddau ar draws amrywiaeth o raglenni a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â meysydd Addysg, Plant a Theuluoedd, Cyflogadwyedd, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Trechu Tlodi, a Throsedd a Chyfiawnder, er mwyn cryfhau'r cysylltiadau â'r meysydd hyn. Mae camau gweithredu penodol wedi'u nodi yn y cynllun hwn, sy'n amlygu'r cyfraniad pwysig y bydd yr adrannau eraill hyn yn ei wneud, a hefyd y cyfraniad y gall meysydd heb eu datganoli (e.e. plismona) ei wneud i wella canlyniadau camddefnyddio sylweddau i unigolion drwy eu polisiau a'u rhaglenni. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Rhaglen Gyswllt graidd Ysgolion Cymru Gyfan ac mae'r pedwar Heddlu yng Nghymru yn darparu arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen honno.

Bydd y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 yn cefnogi un o themâu allweddol *'Ffyniant i Bawb: y strategaeth i Gymru'*, sef gwella iechyd a llesiant yng Nghymru i unigolion, teuluoedd a chymunedau, a fydd yn ein helpu i wireddu ein huchelgais, sef ffyniant i bawb, drwy gymryd camau pwysig i newid ein dull gweithredu o drin i atal. Hefyd, mae'r weledigaeth a'r egwyddorion a amlinellwyd yn *'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'* yn berthnasol i'r Cynllun hwn.

## **5. Ymgynghoriad**

Lansiwyd yr ymgynghoriad chwe wythnos ynghylch Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 ar 1 Gorffennaf 2019 a daeth i ben ar 9 Awst 2019. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael ar y wefan:

<https://llyw.cymru/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2019-i-2022>

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd drwy'r dulliau canlynol:

- Ymgynghoriad ar-lein
- Copïau papur neu gopïau electronig eraill o'r ymgynghoriad
- Cyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid.

### ***Ymgynghoriad ar-lein***

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar-lein am gyfnod o chwe wythnos a daeth i ben ar 9 Awst 2019.

**Derbyniwyd cyfanswm o 85 o ymatebion.**

- **Derbyniwyd 77 o'r rhain ar ffurf ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein, a derbyniwyd yr wyth arall ar ffurf ffurflenni ymgynghori mewn llawysgrifen neu wedi'u teipio.**

- Dewisodd 25 o ymatebwyr aros yn ddiennw.
- Nodwyd bod 52 o ymatebion gan sefydliad a bod 33 o ymatebion gan unigolyn.

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r 85 ymateb. Roedd hyn yn categoreiddio'r safbwyntiau, sylwadau, datganiadau a'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr yn ôl themâu cyffredinol, mewn perthynas â phob un o gwestiynau'r ymgynghoriad.

## 6. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pedwar cwestiwn allweddol:

C1 Mae'r cynllun cyflawni yn parhau i roi pwyslais cryf ar leihau niwed. A ydych chi'n cytuno gyda'r datganiad hwn?

C3 A ydych chi'n cytuno bod y themâu hyn, fel y cânt eu cynnig, yn addas i'r diben?

C5 A ydych chi'n cytuno bod y rhain yn flaenoriaethau priodol?

C7 Yn eich barn chi, a yw'r Cynllun Cyflawni arfaethedig yn gweddu'n dda gyda meysydd polisi a gwasanaeth perthnasol eraill?

Mae'r gwerthusiad o'r ymatebion yn dangos bod y rhan fwyaf o'r rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar-lein yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol â'r holl gwestiynau (gweler tabl 1).

**Tabl 1 – Ymatebion – cwestiynau allweddol yr ymgynghoriad**

	Ydw/Ydy	Yn rhannol	Nac ydw/Nac ydy	Dim ymateb
<b>Cwestiwn 1</b>	45 (53%)	31 (37%)	0	9 (10%)
<b>Cwestiwn 3</b>	45 (53%)	31 (37%)	1 (1%)	8 (9%)
<b>Cwestiwn 5</b>	37 (44%)	37 (44%)	0	11 (12%)
<b>Cwestiwn 7</b>	43 (51%)	31 (37%)	0	11 (12%)

Yn ogystal â chael yr atebion uchod, roedd yn hanfodol cael mwy o ddealltwriaeth o'r atebion a roddwyd. Felly, yn dilyn pob cwestiwn, roedd is-gwestiwn a oedd yn gofyn i'r unigolion esbonio eu hateb yn fanylach. Roedd hyn yn caniatáu i themâu gael eu datblygu ar sail yr ymatebion.



## 7. Y Prif Negeseuon

### Cwestiynau 1 a 2 – ‘Lleihau Niwed’

O'r 85 o ymatebwyr, nododd 76 o unigolion eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol y dylai'r cynllun cyflawni sydd i ddod barhau i ganolbwyntio ar leihau niwed. Wrth ddadansoddi'r esboniadau am hyn, daeth yn amlwg mai lleihau niwed yw'r ethos a ffeirir i weithio oddi mewn iddo. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr ymatebwyr yn teimlo bod angen ffocws cryf ar atal hefyd.

Rwy'n credu y dylai ATAL fod yn brif thema allweddol. Rwy'n deall bod hyn yn rhan o'r themâu allweddol, ond rwy'n teimlo bod angen i hyn fod yn brif ffocws. Mae angen i hyn ddechrau yn yr ysgol, yn ystod addysg. **Gwasanaethau Ategol ac Ymgynghoriaeth Combrogï – Sir Gaerfyrddin #17**

Nid yw atal yn cael yr amlygrwydd a ddisgrifir yn y cynllun **Grŵp Alcohol Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro - #59**

Er bod y ffocws i fod ar leihau niwed, gan fod y rhan fwyaf o'r cynllun yn canolbwyntio ar oedolion, nid yw'n mynd i'r afael â'r agenda o ran atal ac ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc yn ddigonol. **Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Bro Morgannwg #29**

Ni ddylai lleihau niwed gymryd lle neu gael y flaenoriaeth ar ymdrech sydd yr un mor gryf i ganolbwyntio ar atal a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn holl gamau gweithredu'r cynllun. Awgrymir bod angen ffocws llawer cryfach ar atal a dangos hynny, oherwydd er bod y cynllun yn nodi bod atal ac ymyrraeth gynnar yn allweddol, ni roddir sylw mewn gwirionedd i'r cysyniad ynghylch atal a sut y gellir symud ymlaen ymhellach â hynny, ac nid yw'n cael ei adlewyrchu'n llawn yng nghamau gweithredu'r cynllun cyflawni, sy'n nodi'r ffocws o ran gweithredu. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda #30**

Er y croesewir y pwyslais parhaus ar leihau niwed a bod hynny'n gyson â darparu ymyriadau cadarn sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth i leihau ystod y niweidiau sy'n gysylltiedig ag anhwylderau defnyddio sylweddau, mae angen pwyslais ychwanegol ar atal wedi'i dargedu ac ymhlith y boblogaeth. **Iechyd Cyhoeddus Cymru #58**

Dylai'r pwyslais fod ar atal a lleihau, gan fod y cyntaf yn cael effaith sylweddol ar yr olaf. Mae'r papur ymgynghori yn ei gyfarwydd yn cyfnewid y termau 'atal, lleihau ac ymyrryd', sy'n golygu nad yw'n eglur bob amser pa un sy'n cael ei ystyried. Drwy gydol y trafodaethau amrywiol â phartneriaid a darparwyr, mae thema gyson, hynny yw, nad yw'r cynllun yn rhoi digon o sylw i'r gofyniad o ran atal ac ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc er mwyn atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. **Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro #85**

### Cwestiynau 3 a 4 – “Themâu”

Dyma themâu allweddol arfaethedig y cynllun cyflawni:

- atal niwed;
- cefnogi unigolion – er mwyn gwella eu hiechyd a helpu a chynnal adferiad;
- cefnogi a diogelu teuluoedd;
- mynd i'r afael ag argaeledd a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgarwch gorfodi; a
- partneriaethau cryfach, datblygu'r gweithlu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau.

O'r 85 o ymatebwyr, nododd 76 o unigolion eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol â'r themâu a gynigiwyd a'u bod yn teimlo eu bod yn addas i'r diben. O'r rhain, nid oedd 24 o ymatebwyr wedi cynnig unrhyw wybodaeth bellach. Wrth werthuso'r ymatebion, trafodwyd yr holl themâu allweddol arfaethedig. Fodd bynnag, roedd y themâu a drafodwyd amlaf yn ymwneud ag atal niwed ac anghenion tai, gan gynnwys anghenion tai y rheiny sy'n gadael y carchar. Mae atal niwed yn thema barhaus drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, felly rhoddir sylw i hyn yn y casgliad cyffredinol ynghylch yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein.

Sicrhau bod carcharorion yn cael cymorth a thai ar ôl gadael y carchar. Dylai'r rheiny sy'n gaeth i sylweddau ac sydd â thŷ gael eu monitro i sicrhau eu bod nhw, ac eraill yn y teulu neu eu cymdogion, yn ddiogel. **Defnyddiwr gwasanaeth – Dienw #14**

Mae tai a digartrefedd yn ffactor pwysig o ran y rheiny sy'n parhau mewn anhrefn ac sydd â ffordd ansefydlog o fyw, os na fydd anghenion sylfaenol unigolion yn cael eu diwallu (Maslow), felly mae angen i anghenion tai fod yn flaenoriaeth ac mae angen ystyried gwahanol fathau o dai, gan gynnwys tai gwlyb, hostelau, lleoliadau niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac ati. **Dienw #19**

Dylai fod mwy o bwyslais ar sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau lety diogel lle gellir derbyn gwasanaethau/ymyriadau. Nodir y cysylltiadau â thai, ac yn enwedig Tai yn Gyntaf, mewn perthynas â rhai o'n pobl fwyaf agored i niwed/sydd mewn anhrefn, ond nid yw llety anniogel, neu ddim llety, yn ffafriol i gyflawni nodau'r cynllun, neu mae'n rhwystro hynny. **Dienw #61**

Sicrhau gwasanaethau digartrefedd gan bartneriaid/gwasanaethau tai/iechyd integredig.

**Byddin yr lachawdwriaeth #62**

## Cwestiwn 5 – “Blaenoriaethau Allweddol”

Dyma'r blaenoriaethau arfaethedig a amlinellwyd yn y Cynllun Cyflawni:

- Ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, sy'n gyffredin wrth gamddefnyddio sylweddau.
- Sicrhau gwaith partneriaeth cryfach gyda gwasanaethau tai a digartrefedd er mwyn datblygu ymhellach y dull amlddisgyblaeth sydd ei angen i gefnogi'r rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru (a CEM Eastwood Park, y carchar i fenywod) wasanaeth cydlynol, tryloyw a chyson ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau mewn carchardai.
- Cynnig mwy o gymorth i deuluoedd a gofalwyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau.
- Gwella'r mynediad i wasanaethau a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r driniaeth pan fydd eu hangen arnynt.
- Cryfhau ein gwaith amlasiantaeth a'n cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu.
- Mynd i'r afael â dibyniaeth ar feddyginiaethau presgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter.
- Sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio alcohol priodol ac ymatebol ar waith cyn y daw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 i rym. Ar hyn o bryd, y nod ar gyfer hyn yw dechrau 2020.

O'r 85 o ymatebion, nododd 74 o unigolion eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol â'r blaenoriaethau arfaethedig. O'r rhain, nid oedd 29 o ymatebwyr wedi cynnig unrhyw wybodaeth bellach. Er bod yr ymatebion yn trafod y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a restrwyd uchod, os nad pob un ohonynt, roedd y themâu a drafodwyd amlaf yn ymwneud â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd (iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau) a chamddefnyddio sylweddau mewn carchardai.

### Problemau sy'n cyd-ddigwydd Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl

Croesewir y ffocws ar iechyd meddwl a lles meddyliol ond mae hyn yn ehangach na thriniaeth yn unig. Nid her gorfforol yn unig yw atal. Mae nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl yn syfrdanol, gan fod un o bob chwe oedolyn yn bodloni'r meini prawf o ran anhwylder meddyliol cyffredin, a dim ond un o bob tri ohonynt sy'n cael triniaeth. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, #30**

O ran y flaenoriaeth hynod ganmoladwy, sef ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, byddai'n ddefnyddiol gweld mwy o gydnabyddiaeth o'r anawsterau iechyd meddwl cyffredin sy'n ymwneud â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, yn enwedig y gydbertynas gadarnhaol arwyddocaol ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) a thrawma yn y blynyddoedd cynnar (neu'r ddau) a geir mewn achosion o ddibyniaeth ar sylweddau. **Pat Hudson, Raychel Lewis #34**

Rwy'n cytuno bod angen i'r ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd fod yn unedig. Mae cydberthynas ddofn rhwng problemau iechyd meddwl a chymryd sylweddau i leddfu symptomau iechyd meddwl. **Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru #43**

Lleisiodd aelodau'r grŵp eu cymeradwyaeth i'r themâu ond gwnaethant sylwadau ynghylch eu rhwystredigaeth barhaus â gwasanaethau iechyd meddwl. Nododd aelodau'r grŵp, er bod y themâu yn bwysig, nad ydynt yn ffyddiog y bydd gwelliant sylweddol gan y tîm argyfwng, ac ati... **Grŵp Defnyddwyr Gwasanaethau Cwm Taf - Barod #73**

Rydym hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cryfhau llwybrau atgyfeirio o'r carchar i wasanaethau cymunedol o ran gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. **Partneriaeth Bro Ddiogelach #32**

## Carchardai/Cyfiawnder Troseddol

Mae'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd uchod yn gywir. Fodd bynnag, o ran pobl yn y carchar, mae angen cryfhau'r llwybrau atgyfeirio o'r carchar i wasanaethau cymunedol o ran gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Hefyd, mae angen deall lefel yr angen mewn perthynas â phobl sy'n derbyn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cyfiawnder troseddol yn y gymuned, er mwyn galluogi digon o adnoddau i gael eu comisiynu i drosglwyddo o wasanaethau cyfiawnder troseddol i wasanaethau yn y gymuned. **#29 – Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg**

Rydym yn falch o weld y flaenoriaeth i sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru, a CEM Eastwood Park, wasanaeth cydlynol, tryloyw a chyson ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau mewn carchardai. Fodd bynnag, mae llawer o garcharorion o Gymru yn cael eu gosod mewn carchardai y tu allan i'r ardal i fwrwr rhan fwyaf o'u tymor yn y carchar. Felly, dylid cynnwys ymrwymiad i weithio gyda'r Gwasanaeth Carchardai Cenedlaethol i sicrhau y rhoddir sylw priodol i broblemau camddefnyddio sylweddau mewn carchardai yn Lloegr hefyd. **Partneriaeth Bro Ddiogelach #32**

Mewn theori, rwy'n cytuno â'r egwyddor hon, gan nad yw unigolion sy'n defnyddio sylweddau bob amser yn cael triniaeth yn y carchar a chafwyd achosion o adael y carchar â phroblem cyffuriau. Fodd bynnag, credaf fod y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar dde Cymru, yn enwedig o ran carcharorion benywaidd. **Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru #43**

Mae angen mynd i'r afael ag argaeledd cyffuriau mewn carchardai ac ystyried triniaeth amnewid opioid (OST) orfodol i garcharorion sy'n cael eu dal yn cymryd cyffuriau. Dylai fod dedfrydu llymach i droseddwyr ar draws "llinellau cyffuriau". **Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan #66**

Rydym yn cefnogi'n llawn yr amcan ynghylch carchardai ac yn croesawu'r cynnig arfaethedig i safoni llwybr clinigol i reoli camddefnyddio sylweddau a gwella

cyfathrebu a sicrhau bod technoleg gwybodaeth yn gydnaws â gwasanaethau cymunedol. **Dienw #79**

Rydym yn croesawu'r amcan i wella ansawdd gwasanaethau cymorth i droseddwy yn y carchar drwy ddatblygu llwybr clinigol safonedig i reoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai, mewn partneriaeth ag Iechyd mewn Carchardai Cymru. Hoffem awgrymu bod y Cynllun yn gwahanu ei amcanion ynghylch gofal yn y carchar ac ailsefydlu, er mwyn cynnig ffocws mwy pendant ar yr olaf, a bod mesur perfformiad ynghylch lleihau nifer y marwolaethau ar ôl rhyddhau yn cael ei ychwanegu. **Quaker Action on Alcohol and Drugs #83**

### **Cwestiwn 7 – “Cysylltiadau â meysydd perthnasol eraill”**

O'r 85 o ymatebwyr, nododd 74 ohonynt eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol bod cysylltiad rhwng y cynllun cyflawni a meysydd polisi a chyflenwi gwasanaethau perthnasol eraill. Nid oedd yr 11 o ymatebwyr eraill wedi ymateb i'r cwestiwn.

### **Cwestiynau 9 a 10 – “Effeithiau'r Cynllun Cyflawni ar y Gymraeg”**

O'r 85 o ymatebwyr, ymatebodd 49 ohonynt i Gwestiwn 9 ac ymatebodd 41 ohonynt i Gwestiwn 10. O'r rheiny a ymatebodd, yn gyffredinol roeddent yn cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth ddwyieithog a chyfathrebu'n ddwyieithog. Holodd rhai ymatebwyr a oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol. Roedd ychydig o ymatebwyr yn nodi nad oedd ganddynt farn benodol ynghylch sut y gellid newid y cynllun cyflawni i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog. Credaf fod y defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu. Dylai fod opsiynau i ddarparu llenyddiaeth Gymraeg, ym mhob math o gyfryngau, fodd bynnag, teimlaf y gellir cyflwyno'r neges yn Saesneg yn bennaf ynghyd ag opsiynau. **Dienw #9**

Nid wyf yn credu bod hyn yn arbennig o berthnasol. Os oes ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith a ffefrir, yna dylid gwneud ymdrech i sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog. **Martyn Sullivan #10**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu adnoddau yn Gymraeg i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, gan y byddai hyn yn fwy cost-effeithiol na bod ardaloedd/rhanbarthau unigol yn talu costau cyfieithu pan wneir ceisiadau i gyflwyno gwybodaeth yn Gymraeg. **Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg #29**

Yn aml, gwneir i siaradwyr Cymraeg deimlo eu bod yn niwsans os byddant yn gofyn am ddarpariaeth Gymraeg. Hefyd, mae angen bod yn hyblyg, h.y. efallai eu bod yn gallu siarad Cymraeg ond y byddai'n well gan rai gael gwybodaeth ysgrifenedig yn Saesneg – yn aml, mae'n well ganddynt gyfathrebu ar lafar yn

Gymraeg ond darllen neu ysgrifennu yn Saesneg. **Tim Cymorth Cynllunio Ardal Gogledd Cymru #35**

Ni ddylai hyn gael ei ystyried yn flaenoriaeth. Nid yw hyn yn broblem y mae angen ei datrys. Rwy'n gobeithio na fydd y cynllun yn rhoi unrhyw bwyslais ar hyn ac y bydd yn rhoi sylw i faterion ynghylch camddefnyddio sylweddau yn unig. **Dienw #7**

## **Cwestiwn 11 – Gwybodaeth Ychwanegol**

Roedd y cwestiwn hwn yn galluogi'r ymatebwyr i roi unrhyw wybodaeth bellach roeddent yn teimlo nad oedd y cwestiynau eraill wedi rhoi sylw penodol iddi. Drwy gydol yr ymgynghoriad, nodwyd dau faes allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt hefyd, sef Isafbris Uned, Uwch Ganolfannau Lleihau Niwed a Dad-droseddoli.

### **Isafbris Uned**

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn dangos ymrwymiad cadarn i wella a diogelu iechyd poblogaeth Cymru ymhellach ac mae'n rhan o raglen waith ehangach a pharhaus i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Prif amcan yr isafbris uned yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy leihau'r defnydd o alcohol ymhlith yfwyr peryglus a niweidir. Yn benodol, mae wedi'i dargedu at ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidir (gan gynnwys pobl ifanc) sy'n tueddu i yfed mwy o gynnyrch cost isel sy'n cynnwys llawer o alcohol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol yr isafbris uned a phwysigrwydd sicrhau bod y cymorth priodol ar gael i unigolion.

### **Uwch Ganolfannau Lleihau Niwed**

Mae Uwch Ganolfan Lleihau Niwed yn fath o ystafell defnyddio cyffuriau sy'n ceisio lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau, drwy ganiatáu i rai mathau o gyffuriau gael eu defnyddio ar y safle. Nid yw Uwch Ganolfan Lleihau Niwed yn darparu cyffuriau i bobl eu defnyddio; y bwriad yw y gall pobl ddod â'u cyffur eu hunain i'r ganolfan a chael offer chwistrellu glân, ymyriadau meddygol a chymdeithasol, megis profion am feirysau a gludir yn y gwaed, cyngor ynghylch sut i ddefnyddio cyffuriau yn fwy diogel, a gwybodaeth am lwybrau atgyfeirio at driniaeth ac adsefydlu.

Roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 yn dangos yn glir fod diddordeb ymhlith rhai rhanddeiliaid mewn sefydlu Uwch Ganolfannau Lleihau Niwed yng Nghymru, yn enwedig o ystyried y cynnydd diweddar mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a sbwriel cyffuriau.

Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Gartref wedi nodi "nad oes gan y Llywodraeth gynlluniau i gyflwyno ystafelloedd defnyddio cyffuriau ac mai mater i ardaloedd lleol yn y Deyrnas Unedig, ar y cyd â'r rheiny sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith, yw ystyried y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol." Hefyd, mae wedi nodi: "Rydym wedi ymrwmo i weithredu i atal y niweidiau a achosir gan ddefnyddio cyffuriau ac mae ein dull gweithredu yn parhau'n eglur: rhaid inni atal y defnydd o gyffuriau yn ein cymunedau a helpu unigolion dibynnol i adfer, gan sicrhau bod ein cyfreithiau ynghylch cyffuriau yn cael eu gorfodi."

## **Dad-droseddoli**

Codwyd materion yn ystod yr ymgynghoriad ar-lein a'r ymgynghoriad wyneb yn wyneb ynghylch dad-droseddoli cyffuriau. Dylid nodi bod dosbarthiad cyfreithiol cyffuriau yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU o hyd.

## **Digwyddiadau Ymgynghori**

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar-lein, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru saith digwyddiad yn ardaloedd pob un o'r Byrddau Iechyd. Cynhaliwyd y digwyddiadau yn yr ardaloedd canlynol:

- Bae'r Gorllewin (Bae Abertawe) – Dydd Llun 22 Gorffennaf
- Gogledd Cymru – Dydd Iau 25 Gorffennaf
- Dyfed – Dydd Llun 29 Gorffennaf
- Gwent – Dydd Mercher 31 Gorffennaf
- Caerdydd – Dydd Gwener 2 Awst
- Cwm Taf – Dydd Mawrth 6 Awst
- Powys – Dydd Mercher 7 Awst

Rhannwyd y digwyddiadau yn sesiynau bore a phrynhawn a oedd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau, yn y drefn honno. Diben y digwyddiadau oedd caniatáu i bobl ymgysylltu â swyddogion i werthuso cwestiynau'r ymgynghoriad. Daeth cyfanswm o 210 o unigolion i'r digwyddiadau ledled Cymru, ac roedd 105 ohonynt yn ddefnyddwyr gwasanaethau.

**Tabl 2 – Dadansoddiad o’r Mynychwyr**

	<b>Comisiynwyr/Darparwyr</b>	<b>Defnyddwyr Gwasanaethau</b>
<b>Bae Abertawe</b>	14	13
<b>Dyfed</b>	12	11
<b>Gogledd Cymru</b>	15	15
<b>Powys</b>	11	14
<b>Gwent</b>	10	10
<b>Caerdydd a’r Fro</b>	29	30
<b>Cwm Taf</b>	14	12
<b>Cyfanswm</b>	<b>105</b>	<b>105</b>

Ar ôl gwerthuso’r data, roedd yn amlwg bod themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro a bod y rhain yn debyg i’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar-lein. Roedd y prif themâu yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Lleihau niwed
- Problemau sy’n cyd-ddigwydd
- Cydweithio â meddygon teulu
- Atal
- Poblogaeth sy’n heneiddio

Ceir rhagor o fanylion am bob un o’r rhain isod.

### **Lleihau Niwed**

Ym mhob un o dri cham yr ymgynghoriad, trafodwyd lleihau niwed dro ar ôl tro. Roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio’n bennaf ar yr angen am ddiffiniad manwl o’r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei olygu wrth leihau niwed a’r hyn y mae’n ei gynnwys, e.e. a yw’n cynnwys ymwrthod hefyd, ac ymhle mae’r agenda ynghylch adfer yn cael ei chynnwys?

Mae angen inni symud i ffwrdd oddi wrth y cysyniad nad yw dulliau gweithredu sy’n seiliedig ar leihau niwed ac ymwrthod yn cyd-fynd â’i gilydd. Bydd y ddau ohonynt yn berthnasol – yr un cleient ar wahanol adegau; gwahanol gleientiaid ar yr un adeg. **Comisiynwyr/Darparwyr Gwasanaethau Gwent**

Mae lleihau niwed yn derm eang ac nid yw’n nodi’n union yr hyn a olygir. **Defnyddwyr Gwasanaethau Cwm Taf**

Mae taith pawb yn unigryw ac mae lleihau niwed yn fan cychwyn da. Mae angen i wasanaethau lleihau niwed gydweithio’n agos â gwasanaethau ôl-ofal parhaus a chymorth adfer i greu llwybr i bobl ei ddilyn. **Defnyddwyr Gwasanaethau Caerdydd a’r Fro**



Gall lleihau niwed ac ymwrthod gyd-fynd â'i gilydd. Gellir defnyddio lleihau niwed ar y llwybr i ymwrthod. **Defnyddwyr Gwasanaethau Bae Abertawe**

Byddai diffiniad penodol yn egluro'r hyn y cyfeirir ato wrth ddefnyddio'r term 'lleihau niwed' - e.e. unrhyw ymyrraeth sy'n lleihau'r niwed i unigolion, teuluoedd a'u cymunedau. **Darparwyr/Comisiynwyr Bae Abertawe**

Mae'r cwestiwn yn hen ffasiwn. Mae lleihau niwed heb adfer, ac i'r gwrthwyneb, yn atebion annigonol. **Comisiynwyr/Darparwyr Gogledd Cymru**

### **Problemau sy'n cyd-ddigwydd Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl**

Roedd yr ymatebwyr wedi canolbwyntio ar anawsterau o ran cael gwasanaethau iechyd meddwl pan mae ganddynt broblem camddefnyddio sylweddau. Cydnabuwyd bod hyn yn fater parhaus a theimlwyd bod angen canolbwyntio'n bendant ar y maes hwn o hyd.

Pam mae rhwystr i gael gwasanaethau iechyd meddwl pan rydych yn camddefnyddio sylwedd? Mae angen i wasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau fynd i'r afael â'r angen i rai oedolion roi hunanfeddyginiaeth. **Defnyddwyr Gwasanaethau Cwm Taf**

Mae angen i gyfathrebu rhwng gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl, wella'n sylweddol i atal niwed. **Defnyddwyr Gwasanaethau Caerdydd a'r Fro**

Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i beidio â chydabod problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd ac ni fyddant yn gweithio gydag unigolion sy'n dal i ddefnyddio sylweddau neu'n ddibynol ar alcohol, neu maent yn gyndyn o wneud hynny – mae gan y rhan fwyaf o unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau camddefnyddio sylweddau broblemau iechyd meddwl, o fân broblemau i broblemau difrifol. **Comisiynwyr/Darparwyr Powys**

Dylai fod gwell cydweithio â gwasanaethau iechyd meddwl ac adrannau tai, er lles defnyddwyr gwasanaethau. Dylai fod mynediad cyflymach at wasanaethau iechyd meddwl pan fydd defnyddwyr gwasanaethau wedi dadwenwyno. **Defnyddwyr Gwasanaethau Dyfed**

Hoffem weld gwelliant o ran tegwch rhwng gwasanaethau a gwasanaethau iechyd meddwl. **Defnyddwyr Gwasanaethau Bae Abertawe**

Mae angen rhoi sylw i sicrhau mynediad haws at wasanaethau iechyd meddwl, nid yn gyffredinol ond drwy gamau gweithredu penodol, er enghraifft cyd-leoli Nyrsys Seiciatrig Cymunedol mewn gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau. **Darparwyr/Comisiynwyr Bae Abertawe**

## Meddygon Teulu

Roedd amrywiaeth o faterion ynghylch meddygon teulu. Cafwyd adroddiadau ynghylch stigma wrth fynd i bractisau meddygon teulu i drafod problemau camddefnyddio sylweddau. Hefyd, adroddwyd bod angen i ragor o hyfforddiant fod ar gael i feddygon teulu, gan sicrhau hefyd fod llwybrau gofal rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol a chamddefnyddio sylweddau.

Mae angen gwell cydgysylltu rhwng meddygon teulu a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. **Comisiynwyr/Darparwyr Gwasanaethau Gwent**

Mae ar feddygon teulu angen rhagor o hyfforddiant ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael a sut y gellir eu derbyn. **Defnyddwyr Gwasanaethau Cwm Taf**

Rydym yn cael cymorth yn gynharach, e.e. mynd at y meddyg teulu a gweithwyr proffesiynol rheng flaen eraill, fodd bynnag, mae llawer o stigma o hyd, hyd yn oed yn y GIG. **Defnyddwyr Gwasanaethau Caerdydd a'r Fro**

I'r mwyaf, meddygon teulu yw'r cyswllt mwyaf uniongyrchol o ran gofal iechyd – byddai'n dda pe bai meddygon teulu yn dod i ddigwyddiadau ymgynghori, gan nad oes digon o gysondeb na gweithio mewn partneriaeth â meddygon teulu.

**Darparwyr/Comisiynwyr Cwm Taf**

Mae meddygon teulu yn feirniadol iawn ynghylch camddefnyddio sylweddau. Nid ydynt yn deall ac mae angen eu haddysgu, yn ogystal â'u haddysgu ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael – **Defnyddwyr Gwasanaethau Dyfed**

## Atal

Roedd atal yn thema a gododd dro ar ôl tro ym mhob rhan o'r broses ymgynghori. Credir bod angen agenda gryfach ynghylch atal, yn enwedig o ran plant a phobl ifanc.

Dylai atal fod yn thema bwysig – nid cael ei grybwyll yn fyr ym mhob blaenoriaeth yn unig. Hefyd, mae angen mwy o bwyslais ar weithio gyda theuluoedd i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. **Darparwyr/Comisiynwyr Bae Abertawe**

Mae angen mwy o bwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar. **Comisiynwyr/Darparwyr Gogledd Cymru**

Mae angen dull gweithredu sydd wedi'i integreiddio'n eang o ran profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, er mwyn atal niwed i genedlaethau'r dyfodol. **Comisiynwyr/Darparwyr Powys**

Pam nad ydych yn dysgu plant yn yr ysgol fod atal yn well na gwella? **Defnyddwyr Gwasanaethau Gwent**

## Pobl Hŷn

Roedd y boblogaeth o ddefnyddwyr cyffuriau sy'n heneiddio yn fater a godwyd drwy gydol yr ymgynghoriad o ran sicrhau bod triniaeth wedi'i thargedu a'i bod yn addas i'r anghenion, yn ogystal â sicrhau y rhoddir ystyriaeth i iechyd corfforol cyffredinol.

Mae angen i'r ddogfen roi mwy o sylw i iechyd corfforol, yn enwedig ymhlith defnyddwyr heroin hŷn. **Comisiynwyr/Darparwyr Gwasanaethau Gwent**

Anwybyddwyd mynediad at wasanaethau i oedolion hŷn. Weithiau, nid yw oedolion hŷn yn gallu dod allan o'r tŷ i gael cymorth. Hefyd, efallai nad ydynt yn gallu defnyddio'r rhyngwyd a'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig. Rwy'n teimlo bod oedolion hŷn yn cael eu hanwybyddu gan Lywodraeth Cymru. **Defnyddwyr Gwasanaethau Cwm Taf**

Cefnogi poblogaeth o ddefnyddwyr opiad sy'n heneiddio ac sydd ag iechyd corfforol sy'n dirywio, a diffyg ymgysylltu â gwasanaethau triniaeth. **Comisiynwyr/Darparwyr Gogledd Cymru**

Cynnwys strategaethau/fframweithiau ar gyfer pobl hŷn, gan fod gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio. Mae angen cyfeirio at hyn yn y cynllun. **Comisiynwyr/Darparwyr Caerdydd a'r Fro**

## Y Camau Nesaf

Ar ôl gwerthuso'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl diweddarau'r cynllun cyflawni drafft i gynnwys camau gweithredu sy'n seiliedig ar y prif themâu a nodwyd.